

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Gofal Deintyddol Gwena;  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro**

Dyddiad yr Arolygiad: 2 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg .....	16
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ofal Deintyddol Gwena ar Lawr 1<sup>af</sup> Lancaster House, 106 Heol Maes-y-coed, Caerdydd, CF14 4HE, ar 2 Mawrth 2017.

Gwnaeth AGIC ymchwilio sut yr oedd Gofal Deintyddol Gwena yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad.

## 2. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Gwena yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Gofal Deintyddol Gwena yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau'r GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys chwe deintydd, dau hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol (gyda dwy o'r rhain yn cyflawni dyletswyddau'r dderbynfa) a dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Agorodd Gofal Deintyddol Gwena ei ddrysau i gleifion am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016.

### 3. Crynodeb

Canfuom dystiolaeth fod Gofal Deintyddol Gwena yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar y cyfan.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn fodern, wedi'u dodrefnu â llawer o gyfarpar, ac yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod yr offer pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod staff uwch y practis a pherchennog y practis yn eu cefnogi'n dda.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud gwiriadau mwy rheolaidd o'r cyffuriau a chyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chleifion (llewygu).

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom fod tîm y practis yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Nododd y cleifion hynny a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig gan y practis.**

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarparwyd. Cafodd cyfanswm o 11 o holiaduron eu llenwi a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*“Llawer o wybodaeth cyn ac yn ystod y driniaeth a chynghor ar ôl-ofal”*

*“Croesawgar iawn gyda gwên hyfryd a chwrtais iawn”*

*“Ar ôl bod yma a chael pum apwyntiad, rwy'n teimlo bod y deintydd yn gwneud ei orau i mi ac mae yn bendant yn ceisio tawelu meddwl claf nerfus iawn”*

Nododd pob claf a ddychwelodd holiadur ei fod yn fodlon iawn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddo.

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn y practis, er mwyn hyrwyddo gofal am eu hiechyd a'u hylendid ceg eu hunain.

Dywedodd pob claf wrthym ei fod yn teimlo ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth ddeintyddol. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth *“yn y dderbynfa a gan y deintydd”*.

### **Gofal gydag urddas**

Gwelsom fod yr ymgysylltu rhwng y staff a'r cleifion yn gyfeillgar, yn barchus ac yn broffesiynol.

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd holiadur claf wrthym, yn ddieithriad, eu bod yn fodlon â'r gofal yr oeddent yn ei gael. Gwnaeth cleifion hefyd ddweud wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael croeso gan y practis. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi cael *“gwasanaeth da iawn o'r dechrau i'r diwedd”*.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Gellid gweld gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat yn y man aros, yn ogystal â'r costau ar gyfer triniaethau deintyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar wefan y practis a hefyd yn nhaflen wybodaeth y practis, a oedd ar gael i gleifion ei darllen a mynd â hi o'r dderbynfa.

### **Gofal amserol**

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a lenwodd yr holiaduron wrthym nad oeddent wedi gorfod aros i weld deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai hynny a oedd wedi gorfod aros mai dim ond ychydig iawn o amser yr oeddent wedi gorfod aros ac roedd y practis wedi ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra. Cawsom wybod y byddai'r cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw oediadau i'w hapwyntiadau, naill ai gan y derbynnydd neu'r deintydd, a chynigiwyd apwyntiadau eraill os oedd angen.

Cynigiwyd gwasanaeth cadarnhau ac atgoffa i gleifion gan y practis er mwyn dweud wrthynt am amser a dyddiad eu hapwyntiad. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, cardiau apwyntiad, negeseuon testun atgoffa a galwadau ffôn, yn dibynnu ar ddewis y claf.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau gwaith ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol brys arnynt. Roedd y rhif ffôn ar gael mewn manau amrywiol, gan gynnwys cael ei arddangos ar bwys prif ddrws y practis, ar neges peiriant ateb y ffôn, yn nhaflen wybodaeth y practis, ac ar wefan y practis.

### **Gofal unigol**

Roedd y practis ar lawr cyntaf yr adeilad gyda grisiau a lifft i fyny i'r dderbynfa a'r ystafelloedd triniaeth. Golygai hyn fod cleifion ag anawsterau symud neu'r rhai a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad hawdd i'r practis. Roedd cyfleusterau parcio ceir ar gael i gleifion yn union y tu allan i'r practis, gan gynnwys lle parcio i'r anabl i'r cleifion hynny ag anawsterau symud.

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth i gleifion am sut y gallent leisio pryder (cwyn) ac roedd ganddo systemau ar waith i gleifion ddarparu adborth.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Arddangoswyd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) yn y dderbynfa. Argymhellwn y dylai'r practis adolygu ei broses er mwyn sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer



cydnabod ac ymchwilio i gwynion yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol. Argymhellwyd hefyd fod y practis yn cynnwys ei broses gwyno ar ei wefan. Cytunodd y practis i wneud hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau ei weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG yn cyd-fynd â'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.***

***Mae'n rhaid i'r practis gynnwys ei weithdrefn gwyno ar ei wefan.***

Cawsom wybod nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion llafar nac ysgrifenedig ers iddo agor. Disgrifiwyd proses addas gan y practis pe bai cwyn yn cael ei chyflwyno, a oedd yn cynnwys cofnodi'r holl gwynion llafar ac ysgrifenedig ac adolygu unrhyw gamau gweithredu oedd angen eu cymryd o ganlyniad i gŵyn.

Roedd gan y practis focs awgrymiadau cleifion yn y man aros, a oedd yn caniatáu i gleifion roi adborth penodol a dienw am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Gallai cleifion hefyd ddarparu adborth trwy wefan adolygu allanol. Dywedwyd wrthym fod cyswllt yn cael ei wneud â'r cleifion ar ôl eu hapwyntiad cyntaf er mwyn iddynt allu darparu adborth ar y gwasanaeth a gawsant. Yna, cafodd yr adborth hwn ei adolygu gan y practis a'i drafod yn ystod cyfarfodydd y tîm er mwyn ceisio gwella profiadau cleifion.

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelwyd fod safle'r practis yn cael ei gynnal a chadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

**Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi'u cynllunio i hybu diogelwch a lles cleifion.**

**Dangoswyd proses drwyadl o lanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.**

**Gwelsom fod gwiriadau yn cael eu gwneud ar gyffuriau a chyfarpar brys, ond mae angen gwneud y rhain yn amlach.**

### **Gofal diogel**

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r lle.

Agorwyd y practis ym mis Tachwedd 2016 ac roedd y cyfleusterau a'r cyfarpar yn fodern ac yn newydd. Yn ystod ein taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus, a heb unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelwyd tystiolaeth fod gan y practis contract ar waith i gael yr offer wedi'u gwasanaethu bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol.

Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi'u cwblhau a oedd yn nodi peryglon posibl a'r camau gweithredu i leihau risg.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a chael gwared â'r gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchwyd gan y practis mewn modd diogel. Gwelwyd fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel pan oedd yn aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Casglwyd gwastraff nad oedd yn beryglus (gwastraff cartref) trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol. Roedd cyfarpar gwahanu amalgam wedi'i osod, felly gallai gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol gael eu tynnu allan o'r dŵr gwastraff cyn cael eu gwaredu'n ddiogel.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, a oedd yn newydd pan agorwyd y lle ym mis Tachwedd 2016. Roedd y rhain yn fodern, yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân wedi'i pharatoi ac roedd yn bodloni'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).<sup>1</sup> Arolygwyd y cyfarpar dadheintio ac roedd yn ymddangos i fod mewn cyflwr da. Defnyddiwyd dau beiriant awtoclaf<sup>2</sup> ac roedd ardystiad gosod/archwilio ar gael i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05, o brofion a wneir ar offer glanhau a sterileiddio i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses ddadheintio drwyadl gan y staff a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio.

Storiwyd offerynnau mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Cofnodwyd y dyddiadau y mae'n rhaid i offerynnau gael eu defnyddio neu eu hailbrosesu erbyn (glanhau a sterileiddio) ar y deunydd pacio, yn unol ag WHTM 01-05.

Gwelsom fod y practis wedi dechrau cynnal archwiliadau rheoli heintiau ffurfiol yn ddiweddar. Argymhellwyd y dylai'r practis barhau â'r broses hon er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd o ganlyniad i'r rhain yn cael eu gweithredu a'i fod yn cynnwys archwiliad rheoli heintiau rheolaidd fel rhan o'i weithgarwch i wella yn barhaus. Cadarnhaodd y practis mai dyma oedd ei fwriad.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gan glaf (llewygu). Gwelsom fod y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio bob mis gan y practis. Argymhellwyd y dylid cynnal gwiriadau wythnosol (a'u cofnodi) o'r

---

<sup>1</sup> Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisiau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>2</sup> Siambwr wasgedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau trwy eu rhoi mewn stêm dirlawn pwysedd uchel.

cyffuriau a'r cyfarpar mewn argyfwng, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU).<sup>3</sup> Sicrhaodd y practis ni ar lafar y byddai'n mynd i'r afael â hyn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddo system ar waith i gynnal gwiriadau rheolaidd ar y cyfarpar mewn argyfwng, yn unol â'r safonau ansawdd a nodwyd gan y Cyngor Dadebru (y DU).***

Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod hyfforddiant y mwyafrif o'r staff ar ddadebru cardio-anadlol (CPR) yn gyfredol. Ni lwyddwyd i weld tystysgrif un aelod o'r staff, ond cadarnhaodd y practis fod ei hyfforddiant yn gyfredol, ond nad oedd y dystysgrif ar gael. Gwelsom gadarnhad bod lle wedi'i gadw i'r aelod hwnnw o'r staff ar gwrs hyfforddi CPR yn fuan (yn unol â chynllun hyfforddi blynyddol yr unigolion). Argymhellwyd i'r practis y dylai gadw matrices hyfforddi ar gyfer ei gofnodion fel ei fod yn gallu goruchwyllo'r hyfforddiant sy'n cael ei wneud gan y staff, a'i fod yn cadw tystysgrifau staff o hyfforddiant a gwblhawyd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio'r cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwyddom hyn oherwydd roedd y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod hyfforddiant y deintyddion ar ymbelydredd ïoneiddio yn gyfredol ac roeddent yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod rhai nyrsys deintyddol wedi cael hyfforddiant ar ymbelydredd ïoneiddio, ond nid pob un. Gwnaethom gynghori'r practis i gael cyngor ar ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>4</sup> o ran yr hyfforddiant a argymhellir i weithwyr clinigol proffesiynol.

---

<sup>3</sup> Mae'r [Cyngor Dadebru \(y DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n gymwys i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

<sup>4</sup> <http://www.gdc-uk.org/Newsandpublications/Publications/Publications/Continuing%20Professional%20Development%20for%20Dental%20Professionals.pdf>

## ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ymbelydredd ìoneiddio, yn unol â'r gofynion a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gwelsom fod archwiliadau yn cael eu cynnal ar ansawdd lluniau pelydr-X yn rheolaidd fel rhan o'r gweithgarwch monitro a sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl o ran cymryd lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylai gwelliannau gael eu gwneud, os oes angen.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd y staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn.

Cadarnhaodd y staff y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo'u bod yn gallu dweud wrth staff uwch y practis am unrhyw bryderon gwaith a allai fod ganddynt ac roeddent yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## **Gofal effeithiol**

Canfuom fod tîm y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y practis wrthi'n rhoi amrywiaeth o archwiliadau ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i gleifion. Roedd y practis yn parhau i ddatblygu ei broses archwilio gan ei fod newydd agor. Argymhellwyd y dylai'r practis ffurfioli'r broses ar gyfer cynnal gweithgareddau archwilio trwy gydol y flwyddyn wrth iddo ddatblygu. Cadarnhaodd y practis y byddai'n gwneud hyn.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y gwaith o gadw cofnodion. Roedd cofnodion cleifion ar fformat electronig. Roedd y nodiadau a wnaethpwyd yn fanwl ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi'u cynllunio i hybu lles a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom weld rhai themâu cyffredin lle y dylid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pob deintydd yn cadw cofnodion o safon uchel yn gyson. Dyma nhw:

- Er y dywedwyd wrthym fod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ar lafar i bob claf, roedd wedi'i gofnodi'n anghyson ymhlith ymarferwyr

- Roedd y gwaith o gofnodi caniatâd gwybodus cleifion i driniaeth yn anghyson ac nid oedd cynlluniau triniaeth cleifion wedi'u llofnodi bob amser
- Nid oedd defnydd cleifion o alcohol a thybaco wedi'i nodi bob amser gan ddeintyddion, ynghyd ag unrhyw gyngor hybu iechyd a ddarparwyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R) 2000, roedd y rhesymau dros gymryd lluniau pelydr-X, a chanfyddiadau'r deintyddion o'r lluniau hyn, wedi'u cofnodi.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Dangoswyd strwythur rheoli gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod holl dîm y practis yn eu cefnogi'n dda.**

Agorwyd Gofal Deintyddol Gwena ym mis Tachwedd 2016 ac mae dau ddeintydd yn ei berchen. Caiff y perchnogion eu cefnogi gan aelod uwch o dîm gweinyddol y practis a thîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Pan wnaethom nodi meysydd i wella, dangosodd perchnogion y practis barodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain ar unwaith.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi gan bob aelod o dîm y practis. Canfuom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn credu bod y cyfathrebu'n dda yn y practis. Gwelwyd hyn o fewn cofnodion cyfarfodydd y tîm a'r cyfarfodydd i nyrsys yn unig.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd pob polisi wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr awdur ac roedd gan y practis broses ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y polisiau.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cyflawni hyfforddiant ar bynciau amrywiol a oedd yn berthnasol i'w rôl. Gwnaeth staff hefyd gadarnhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Cawsom wybod am gynlluniau ar gyfer gweithredu arfarniadau staff a chynlluniau datblygu personol yn y flwyddyn i ddod.

Canfuom fod y staff clinigol perthnasol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod staff wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn diogelu cleifion a'u hunain yn erbyn heintiau. Argymhellwyd i'r practis y dylent gadw canlyniadau imiwneiddio staff er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael gan y bwrdd iechyd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Arddangoswyd eu tystysgrifau cofrestru AGIC, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom fod gan y

deintyddion sy'n gweithio yn y practis dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd y rhain wedi'u cyflwyno yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, fel y bo'n ofynnol gan y rheoliadau.



## 5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n rhaid i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Gofal Deintyddol Gwena yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>5</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>6</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio

---

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw byderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Gofal Deintyddol Gwena**

**Dyddiad yr Arolygiad: 2 Mawrth 2017**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
Tudalen 7	<p>Rhaid i'r practis ddiweddarau ei weithdrefn gwyno i sicrhau bod amserlenni ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.</p> <p>Rhaid i'r practis gynnwys ei weithdrefn gwyno ar ei wefan.</p> <p><i>Gweithdrefn GIG Cymru 'Gweithio i Wella'</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 16</p> <p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 6.3</p>	<p>Byddwn yn adolygu deddfwriaeth sy'n ymdrin ag amserlenni ar gyfer gweithdrefnau cwyno gwasanaethau preifat a'r GIG ac yn diweddarau polisïau. Sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r diweddariad ac yn llofnodi cofnod wedi'i ddyddio'n briodol. Disodli'r polisïau cyfredol ar y wal yn yr ystafell aros â'r fersiynau diweddaredig.</p> <p>Byddwn yn ychwanegu'r weithdrefn gwyno ddiweddaredig at wefan y</p>	<p>Anna Davies</p> <p>Anna Davies</p>	<p>31 Mawrth 2017</p> <p>31 Mawrth 2017</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			practis.		
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
Tudalen 10	<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14 (2)</p>	Byddwn yn gwirio'r offer a'r cyffuriau brys yn wythnosol ac yn nodi'r wybodaeth hon ar daflen gofnodi.	Sarah Arlotte	<p>3 Mawrth 2017</p> <p>Ar unwaith ar ôl yr arolygiad</p>
Tudalen 11	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 7.1	<p>Cofrestru staff cyflogedig ar gwrs DPP ar ymbelydredd ïoneiddio os nad ydynt wedi'i wneud (dwy nys ddeintyddol). Mae hyn bellach wedi'i gwblhau.</p> <p>Mae'r holl staff clinigol hunangyflogedig bellach wedi</p>	Rebekah Smith	24 Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			cwblhau hyfforddiant priodol o fewn y 12 mis diwethaf.		
	<i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 6.6 a 7</i>				
Tudalen 12	<p>Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Adolygu canllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol ar gadw cofnodion clinigol.</p> <p>Diweddarau'r templed ar y feddalwedd i gynnwys sgrinio canser y geg, y defnydd o alcohol a thybaco, a hybu iechyd y geg.</p> <p>Sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth yn cael eu hargraffu a'u llofnodi.</p> <p>Cwblhau archwiliad o gofnodion cleifion. 20 set o gofnodion pob clinigydd i gael eu hadolygu'n ôl-weithredol ac yn dilyn yr arolygiad.</p> <p>Bellach rydym yn dilyn dull hunanasesu Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, ac yn dilyn</p>	Anna Davies	<p>Ar unwaith ar ôl yr arolygiad.</p> <p>Ar unwaith ar ôl yr arolygiad.</p> <p>30 Ebrill 2017</p> <p>Wrthi'n gweithio ar hyn. I'w gwblhau</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			argymhellion o ran cadw cofnodion (yn ogystal â phob agwedd arall ar arfer da).		erbyn 30 Ebrill 2017
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.				

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** Osian Davies

**Teitl:** Perchennog y Practis

**Dyddiad:** 23 Mawrth 2017